# HANES YR OFER-FERCH.

*Sef, Cyffes y* WANN HYSWI *yn bedair Rhan.*

Y Rhan gyntaf, Hanes ei Mebyd hi.
Yr ail Rhan, Ei Hanes yn ei Hieuengctyd.
Y Drydydd Ran, Ei Hanes yn Oedran Gwraig.
Y Bedwaredd Ran, Ei Hanes yn ei Henaint.

UNIV. COLL. OF WALES ... LIBRARY

## Y RHAN GYNTAF.

POB geneth neu Lodes, fam gannaid fwyn gynnes,
Clych hynod clywch hanes, Fy mebyd anghynes,
I chwi mi fynega, Hen ymmod hyn yma,
O'm hanes o'r dechreu, ac irder fy mlodau,
Cofiwch fy ngeiriau, fel Tegan i chwareu,
Pan ddeloch riw fesyr, i Oedran a Synwr,
Cewch Weled fy llythyr yn ddrych Goleu Eglyr,
Agorwch fy nrych pwy bynnag a fych,
Pa le bynnag y bych, Os gwael ac os gwych,
Edrychwch o'ch ol, Cewch weled heb rol,
Fod Mebyd yn ffol yn wyllt anianol,
Yn hoffi mabiaeth yn wirion araeth,
Taer ei naturiaeth, I gasau dysgeidiaeth,
Ei holl ddifyrrwch yw pob ofer ddigrifwch,
Am hynny os ystyriwch Er d'olwg gwrandewch,
Fel y bum i fy hunan, Mi draetha i chwi'n fuan,
I roi i chwi oleuni Pwy oedd fy rhieni,
Chwi glywsoch Lodesi Hanes y rheini,
Fy nhad i oedd yn henddyn Sy' 'nghyffes Oferddyn,
A Mam yn ddiammeu Oedd ei wraig ynteu,
A minneu eu merch ole Yw Aeres bod heb le,
Pan oeddwn yn Eneth, Ceisio i mi Fammeth,
Cawn ddigon o Fabiaeth a pheth o bob peth,

Pan ddaethum mewn oedran I gerdded fy hunan,
Cawn Deganau gwychion A gownau brithion,
A bonet gwyn a chyrn ar ynghoryn,
Hanner Llath o hyd I harddu fy mhryd,
Yn un Rubanau o bob Lliwiau,
A hydiau Sidan Scarff ffeind a ffann,
Cyn falched cyn wched a'r Paun wrth gerdded,
Cael morwyn lan olau I'm canlŷn i chwarau,
A miwsig nid amgen I'm cadw 'n llawen,
Cael siwgwr Seigiau a gormod o foethau,
Pan eis i'n hogen I'r ysgol hwy a'm gyrren,
I Dre ffor syth yno a morwyn i'm tendio,
Cael cloben o Saesnes yma i mi'n feistres,
A thafod aur euriau Gan hon a gwen denau,
Hi wnaeth i mam goelio wrth ei gwaith yn gwenheithio
Fod yr haul yn aur melyn, ar Lleuad yn gaws gwyn,
A pheth oedd angen hi ddysgai i mi ddarllen,
Mor berffaith am ei En ag Offeiriad y fferen,
A thorri a gwnio cwiltio a fflowrisio,
Llun Rhediad y nefoedd a physgod y moroedd,
Llun pob Anifeiliaid Ymlusgiaid Ysgr ybliaid,
Llun Engylion a Dynion Llun Coedydd a dail gwyrddion
Llun y Pab a phob peth Hi'm gwnae 'n burion geneth,
Hi ddysca i mi fanners a charage a chers,
Ffit I Fod yn *Ladi* I'r Duwc *Wmphrey* neu'r Lord *Harri*
A Mam yn ei choelio, ac agos a dottio,
Ni chae hi byth ddigon Iddi o anrhegion,
Gyrru'r yd a'r Enllyn y caws a'r ymenyn,
Yn bynnau ceffyle I'w *dobri i'r* dre,
A *minneu* o'r tu arall yn Ysgolheiges gall,
Yn dysgu *rampio* a'r y *Meincciau a phranccio*,
Pan *ofynnai* am yngwers neu fygwth fy hers
Awn yn glaf rhwng *ei* dwylo rhag ofn cael fy *chwippio*,
Gan ddolur o'm bol neu ddolur o'm siol,
Neu ddolur om bys ac yno ar frys,
Gelwyd ar y forwyn I fynd a *mi* 'n fydyn,
Ar y gwelu *i'm* Ystafell Tan nad awn yn well,
Pan awn gynta *oi* golwg *Nid* bychan fy nrwg,

Awn

Awn yn *union* i chware gyda Phlant drwg y dre,
*Mi* fyddwn gyda *rhain* cyn jached ar *glain*,
Dae *Meistres os happîa* I edrych am dana,
*Mi* redwn ar y gwelu am mhen yn ym mhilu,
Ac yno yn ynghlog cin glafed a chluftog,
*Hi* afaelleu yn farddwn, I'w wafgu yn *ei* dwrn,
Ac a ddyweda drwy gyffro Fod ymhyls *i'n gweithio*,
Hi ddyweda wrth y Forwyn yn fawr iawn ei chwyn,
Gaingc o'r ffefer Sydd arni *God bless her*,
Rhoe ei llaw yn ei ffocced, Ac a roe i mi bapured
O figwr Candi a bendith Duw gyda hi
Pan droe hi ei chefn gyntaf Yn lle bod yn glaf,
Mi godwn yn fiwr at papur a'r fiwgwr,
Fel hyn byddwn yn aros Y rhan fwya o'r wythnos,
Heb fyned i'r Yfgol Fel yr oeddwn i'n ffol,
Hi ae hitheu ar fyrder yn llwan iawn ei hyder,
I dy Nhad a Mam, y Saefnes goes gam,
I froli o yn rhagor, *Upon my Honour*,
Mae hi yn yr yfgol yn dyfgu 'n reiol,
Galw Mam i'r fiamber a dangos hen fiampler,
A wnae 'r Saefnes gall o waith rhyw un arall,
A gwneud i Mam goelio Mae fi wneutha honno,
Ni chae Mam byth le Gwafted iddi eifte,
Na digon o groefo Bwytewch yfwch dowch etto,
A hitheu 'r hen Saefnes Oedd y wrach ar Saith neges,
Pa mwya a rodd iddi Mwya fydda ei heifiau hi.
Ar ol cael ei pharch Ei ffwn ei hun a ffwn ei march,
Rhaid gyrru arian ir Dre Yn f' enw inne,
I brynnu Edafedd arian ac Edafedd fidan,
I arferu fy Llaw i fflowrifio 'n hylaw
Gyrrai Mam yr arian atta i fy hunan,
I brynnu ar fy Lles y peth a berai Meiftres,
Prynnwn inneu afalau a rwning fiwgwr a refing,
A phob Crwms hwyr a boreu afflowrifiwn i oreu,
O flaen rhyw wylie Fo'm nolwyd i adre,
Rhoe Meiftres ym mhocced Rhyw glytty 'n cyn gyfled
A bawd fy maneg. O waith cywraint teg,
A wnaeth hi ei hunan, O fidan ac arian,

A'm

A'm ſiarſio i ddweid gartre Mai fi ai gwnaethe,
Gwych oedd 'gan inneu hynny Gael clod heb ei haeddu
A mam a ryfeddodd yn fawr pan ei gwelodd,
Cyn falched mi ai clywn, a Gaſt mewn gown,
Ac i dangos y pwyttri I wrachod y piſeri,
Aeth y gair hydy pentre 'Mod i'n Seampſtwraig ore,
Afu erioed yn y gwledydd am bob gwniad waith celfydd
Ond cyn i mi eilwaith Fynd at fy nyſgeid iaeth,
Yn lle llawen wylie fel y gwelſwn i gartre,
Roedd fy Rhieni yn awr wedi torri,
Waith byw yn rhy uchel Yn lleicion eu gafel,
Trwy driſtwch a thrwbl Wedi myned trwy 'r cwbl
Cofiwch chwi Lodeſi Yſtyried yſtori,
Felly y terfyna yma y Rhan gynta.

## YR AIL RHAN.

RHianod y gwledydd gwyryſon gwar ufudd,
Gwrandewch ar yngffyſſes Ail rhan o'm hanes,
Ar ol i'm Rhieni Syrthio 'i Dlodi,
Fy Nain o du Mam a'm cymmerth i'n ddinam,
Glywed clod i mi, A'r Yſgolheictod oedd geni,
Hi welai hynny yn doſt Wedi cymryd coſt,
Yngollwng ar hynt a'm pen yn y gwynt,
Y gollyngwn i ar fyrr dro y cwbl yn ango,
Os mawr oedd fy moethau Gyda Mam i'm mawrhau,
Roedd fy nain yn ſaith ffolach I'm gwneuthur yn falch-
Yngyrru i'r Dre am dro I ddyſgu downſio, (ach
A mod i'n Lodes o'r lana a chenif fi barts da,
Ond wrth ddyſgu dawnſio Mi ddyſgais gywleidio,
A chwerthin yn Llygad pob Llengcyn diriaid,
Yſbortio a gwawdio Yſbeittio a ſcornio,
Ymgraſſu pob malltod, Commandio cymmendod,
Yngweled mor heini Dae ſioppwr i'm hoffi,
Ni chadwn mo'i gwmni rhag ofn iddo dhorri,
Dae Apothecari wr ffel i 'm ffoli,
Ni chyffyrddwn a'i Gyffariau, Er brithed ei Bottiau,
Y Meddyg wr moddus a'm carai 'n annepcorus,
Nid awn at ei gleiſion, A'i Eli na'i Oelion,

Attwrney

Attwrney mewn teirni, Bwriadai ymrhiodi,
Nid awn i 'n Gift breibiau Mi ffieiddiais ei ffiau,
Dae Meifter Ecfeifmon I'm galw 'n fwyn galon,
Fe ffaeliodd fy ffoli, I roi ei bricc yn ym mrecci,
Dae Farcer Bonddigedd I'm caru wr cwyredd,
Ni ddown at ei gynrhon I drin ei grwyn budron.
Y cwriwr a'm carai Pen fenaid pan fynnai,
Nid gwell oedd ei gellwer neu ei bwrcas na'r Barker,
Dae crydd o langc cryno, mewn cyfur i'm ceifio,
Nid awn ar ei duedd I nyddu iddo Edafedd.
Dae glwfer yn glafedd, o'm cariad i'm cyriedd,
Ni fynnwn i fynad Droelli ei Grwyn drewllyd.
Ar ei fodlau dae Sadler i'm blyfio wrth ei bleffer:
Ni hoffwn mo'i offer, I hoelio fy nghrwpper,
Y Gof yn dda ei gyfarch a berai i mi barch,
Diolchoch ni olchwn Mo'r gryffau mi ymgroefwn.
Y Ffeltiwr fiwr fifil a'm carai ym mhob cweryl,
Nad awn rhwng ei dynion Freichiau du frychion,
Y Moriwr ymmerod mynnai gael ammod,
Nid awn i 'n angorfa i'w Anchor a gangeria,
Y Garddwr a gerddaiu i'm ffanfio a ffwifiau,
Nid awn i ymhoeni i chwynu mo'i erddi,
Y gwydd oedd wr gweddol myna yn briodol,
Ni wnawn i mo'i Syth na i bina fo byth,
Y Pannwr a'm pwniodd nid awn i ar ei duedd,
I hel golch diolchoch Bob awr a baw moch.
Bu'r Lliwydd yn lliwiaid Na chae fi 'n gywlaid,
Ni rown in neu yn ddiau un Llaw yn y Lluwiau,
Dae yr Tailiwr net hylaw un afiaeth o naw,
Ni fynnwn i'n angall un cob o ddyn cibddall.
Y Cowper a'm cippiau wr awchus i'w freichiau,
Ni fynnwn y finneu mo'm golchi ai ffyn cylchau,
Saer goed a fu 'n cydio a'm rymmus ymrwymo,
Ni fynnwn mo'i finion Ni's cludwn mo'i Yfglodion.
Saer maen yn fiwr mynna Ymdynnu a'm dana,
Ni chydiwn i ond ychydig i garrio iddo gerrig,
Gweithiwr pridd feini a fynnai ynghwmpeini,
Ni thrown i mo'i benglog ai hen fiacced glaiog,

Y mean dowr oedd daerach Ei gariad nag Eurach,
Roedd a roglau Calch arno Ni fynnwn i mono,
Y Cigydd ddyn cegog a roe aur ar ynghlog,
Nid awn i'w dy cyfyng I grafu mo'i bwding,
Canhwyllwr cwyn hollawl a'm carai 'n rhagorawl,
Ni meulwn a'm olud yn un dryll o'i wer drewllyd.
Melinydd dan lonni Bwriada ymrhiodi,
Nid awn i iw Lwyfen I doifi mo'i deifen,
Ni fynwn *i'm* caru mo'r Glo-wr wynebddu,
Na'r mwyn gloddiwr glew dda oedd *Lybion ei ddibla*,
Telyniwr a ffidler oedd *daerion* fwyn dyner,
Ni fynnwn i'n fenyw *Gymdeithion* mor feddw,
A *maint oedd* o daro *Mi* droefum bawb *heibio*,
A hynny o wir falchder Bu ganwaith *edifar*,
Pa fodd *mi* fynega i chwi yn y rhan nefa,
Felly terfynes Yr *ail* rhan o'm hanes.

## Y DRYDYDD RAN.

POB *Gwregion ddi* ym adferth gwrandewch ar fy
A'r peth a ddaeth i mi gwedi mriodi, [nhrafferth
Ar ol troi 'r Crefftwyr *heibio Nid* oedd neb i'm ceifio,
Ni chymrwn un cynnig Oni chawn wr Bonheddig,
Neu Aer teg yn ddiau a'm cadw ar Glufto au,
Er na feddwn un gronyn Cynyfgaeth iw ofyn,
Ni chawn a chwenychwn A gawn ni chymmerwn,
Rhai o'm hen Gariadau a droefwn draw er's dyddiau,
A roe 'r gair allan a'u Llid arnai 'n llydan,
Eu bod yn cael rhai a'i coelia eu dewis wyllys arna,
Pan glybu fy Nain Rhuad y rhain,
Reportiodd hithau Lawer o bethau,
Y gwnae hi fi 'n gynnes De 'Sycurtores,
Am gwthio 'n gyfoethog I hen gerlyn cottog.
A hwnnw a'm cymmera. Ei Dduw oedd ei dda,
Dechreuau hwn ordrio Pob peth tan fy nwylo,
Am fiarfio fil can fil eu cymmeryd yn gynnil,
Pan ae fo o'r ty dae wragedd y Piferi.
Llawer chwedl digri A gawn gan y rheini :
Aml Yftori newydd, O bob cwr o'r gwledydd,

Bid

Bid gwir bid celwydd Mi rannwn dda'r Cybydd,
Yr yd ar Enllyn yn gaws ac ymenyn,
Y Llin ar Cywarch ar gwlan yn ddihafarch,
A phob beth oedd yno a ffordd i mi atto,
A roddwn i 'n ddinam yn debyg ei Mam,
Hoff iawn oedd genni Eu difyr Gwmpeini,
Pan ddeallodd y Cadno Fy mod yn ei ysbeilio,
Fe brifiodd yn giaidd Rhoes glouau ar y nannedd,
Prin y cawn i allan a fwyttawn i fy hunan,
Y dydd yn ddrengllydd, ar Nos yn oerllyd,
Mynd i ffordd yn fainI achwyn wrth fy Nain,
A dywedyd wrthi yr hyswiaeth oedd genni,
Na wnawn i mor pethau Ond rhannu ei gyfreidiau,
Ac eiste o diogi Gyda gwragedd y Piseri,
Heb nyddu na gardio Golchi na Sgwrio,
Pobi na chorddi Ond darllain Baledi,
A phob ofer wegi, Ni wnawn ond a fynnwn i,
Fe ddaeth fy Nain yno a dechreuau ysgowlio,
Yn enw fy nghynhori I fod yn well Hyswi,
A minneu mor ffromffol wyllt annaturiol,
Ni fynnwn ynghynghori, Mi ai peccies iw chrogi,
Ac a drois yn sydyn I gashau 'r henddyn,
A chwrlio'r Cerlyn, a phluo ei goryn,
Or diwedd daeth i mi siawns a beichiogi,
Dygaswm myn y gog Yr ae fo 'n gynddeiriog,
Gan dyngu hyd y wlad, Nad y fo oedd ei Dad,
Mynd allan oi go Nid ae fo iw fedyddio,
Ni fagai fe mono Gwell ganddo ei wenwyno,
Gwnae ben am dano ei hunan cyn y cymero fo'r baban,
Ar fyrr fe ddae ei elyn I ymweled ar Cerlyn,
Sef Meister Angue I estyn ei ferrau,
Y casa gan gerlyn a ga ei olud ai Eilyn,
Minnea am dyn bychan a gafodd y cyfan.

## Y BEDWAREDD RAN.

Dowch hen wragedd Ehyd Sy 'n caru Segurs[illegible],
Y rwan clywch ryw faint O hanes fy henaint,
Ar ol marw 'r Cerlyn, Dirfawr ei derfyn,
Roedd geni fawr olud Pob peth o dda'r byd,

Mi

Mi werthais y cyfan yn y ty ac allan,
Fy meddwl oedd fwynlan cael byw ar fy arian,
Mynd eilwaith ir Dre yn Llawen fy lle.
I ymleowi eilwaith bob dydd mewn gwifg fraith,
Cael par o gylchau i gwnpafu mheifiau,
Cael Efgudiau a Las arian a Hofanau fidan,
Cae bawb am cyfarfyddau, Edrych fy ngodrau,
Ac yn y rhwig hwnnw ces flas ar y Cwrw,
A dechreu ymbefgi ar Winodd a Brandi,
Roedd geni dygafwn y maint fyd a fynnwn
O arian iw gwario, a digon iw yfpario,
Dihareb wir ydyw, Rwy yn gwybob hyn heddyw,
Na fferu na ffower na chig bras bob amfer,
Haws cadw dau neu dri Anhwfmon nag un Anhyfwi,
Felly ar fyrr drwbl mi eithum inneu drwy 'r cwbl,
Mewn ychydig o amfer Trwy fariaeth tra ofer,
Heb ddim i'm cyfuro Gwedi i mi eu gwario,
Ond dywedyd yn rhigl Fod aml dreigl,
Ar dda Cybydd, buan ei derfydd.
Wedi i mi wario yr arian a'i rorio,
Y Geg oedd yn Llofgi Heb ddim iw ddiffoddi,
Gwerthu a gwyftlo fy nillad ai gwario,
Am Debacco a Chwrw, ond dyna far garw,
Pan eithym i'n anallu heb ddim geni i dalu,
Braidd drwy fawr orcheft ymgedwn i'n oneft,
Gan faint oedd fy awydd I gwrw Tafernydd,
Mi eithym yn hen wrach I ganlyn rhyw Eurach,
Er mwyn cael rhyw Efgus I borthi dant melus.
Pan gae hwn beth ynnill ar glytio hen bedyll,
Ir dafarn ein deuwedd yr aen ni yn gyfannedd,
I foddi ac i Lofgi tra medda fo beni,
Ni wyddyd par un feddwa o honom ni a fydda,
Naws dygn os digia a Ffaftwn fo'm fuftia,
Fo ddarfu am hwnnw, Ni chae ddafn o gwrw,
Byth ond hynny Rwy yn barod i drengu.

RICHARD PARRY, *Athraw Yfgol, ai gwnaeth.*

D I W E DD.

UNIV. COLL. OF S. WALES & MONM.